**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1080 (Cy. 73)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) 2000

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan VI o Ddeddf Tai 1996 ("Deddf 1996") yn ymwneud â dyrannu llety tai gan awdurdodau tai lleol.

O dan adran 160 o Ddeddf 1996 caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru ragnodi achosion nad yw darpariaethau Rhan VI yn gymwys iddynt.

O dan adran 161 o Ddeddf 1996 gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru ragnodi dosbarthiadau o bersonau sy'n ddarostyngedig i reolaeth mewnfudo o fewn ystyr Deddf Lloches a Mewnfudo 1996 ond sy'n gymwys hefyd i ddyraniad llety tai. O dan yr adran hon caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru ragnodi hefyd dosbarthiadau eraill o bersonau sy'n gymwys, neu ddosbarthiadau o bersonau nad ydynt yn gymwys.

O dan adran 162 o Ddeddf 1996 caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru ragnodi gwybodaeth sy'n rhaid ei gynnwys mewn cofrestr tai gan awdurdod tai lleol.

O dan adran 163 o Ddeddf 1996 caiff y Cynulliad Cenedlaethol ragnodi yr hyn sy'n rhaid i awdurdod tai lleol ei wneud cyn arddel ei ddisgresiwn i dynnu rhywun oddi ar eu cofrestr tai.

Mae Rheoliadau Dyrannu Tai (Lloegr) 2000 yn rhagnodi achosion at ddibenion adran 160 ac yn rhagnodi dosbarthiadau at ddibenion adran 161. Maent hefyd yn rhagnodi gwybodaeth at ddibenion adran 162 ac yn rhagnodi gofynion at ddibenion adran 163.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1080 (W. 73)

# HOUSING, WALES

## The Allocation of Housing (Wales) Regulations 2000

### EXPLANATORY NOTE

*(This note does not form part of the Regulations)*

Part VI of the Housing Act 1996 ("the 1996 Act") is concerned with the allocation of housing accommodation by local housing authorities.

Under section 160 of the 1996 Act the National Assembly for Wales may prescribe cases in which the provisions of Part VI do not apply.

Under section 161 of the 1996 Act the National Assembly for Wales may prescribe classes of persons who are subject to immigration control within the meaning of the Asylum and Immigration Act 1996 but who are also qualified to be allocated housing accommodation. Under this section the National Assembly for Wales may also prescribe other classes of persons who are, or are not, so qualified.

Under section 162 of the 1996 Act the National Assembly for Wales may prescribe the information which must be contained in a local housing authority's housing register.

Under section 163 of the 1996 Act the National Assembly may prescribe what a local housing authority must do before exercising its discretion to remove someone from its housing register.

The Allocation of Housing (England) Regulations 2000 prescribe cases for the purposes of section 160 and prescribe classes for the purposes of section 161. They also prescribe information for the purposes of section 162 and prescribe requirements for the purposes of section 163.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod y darpariaethau hynny yn Rheoliadau Dyrannu Tai (Lloegr) 2000 yn cael effaith yng Nghymru, ac mewn perthynas â Chymru yn diddymu Rheoliadau Dyrannu Tai 1996 a Rheoliadau a'i diwygiodd.

These Regulations provide for those provisions of the Allocation of Housing (England) Regulations 2000 to have effect in Wales, and revoke in relation to Wales the Allocation of Housing Regulations 1996 and Regulations which amended them.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1080 (Cy. 73)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) 2000

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *30 Mawrth 2000* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 160(4), 161(2) a (3), 162(4) a 163(7) o Ddeddf Tai 1996**(a)** a freiniwyd ynddo bellach i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru**(b)**.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.-**(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Cymhwysedd ar gyfer dyrannu Llety Tai**

**2.** Bydd Rheoliadau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 o Reoliadau Dyrannu Tai (Lloegr) 2000**(c)** yn cael effaith yng Nghymru a bydd i'r mynegiadau a ddefnyddir yn y Rheoliadau hynny yr un ystyr ag a roddir iddynt gan Reoliad 2 o'r Rheoliadau hynny.

**Diddymu**

**3.** Diddymir y Rheoliadau canlynol mewn perthynas â Chymru -

(a) Rheoliadau Dyrannu Tai 1996**(ch)**;

(b) Rheoliadau 2 a 3 o Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Diwygio) 1997**(d)**;

(a) 1996. p.52.

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 2000/702.

(ch) O.S. 1996/2753; diwygiwyd gan O.S. 1997/631 a 1997/2046.

(d) O.S. 1997/631.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1080 (W. 73)

# HOUSING, WALES

## The Allocation of Housing (Wales) Regulations 2000

| | |
|---|---|
| *Made* | *30th March 2000* |
| *Coming into force* | *1st April 2000* |

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers given to the Secretary of State by sections 160(4), 161(2) and (3), 162(4) and 163(7) of the Housing Act 1996**(a)** which are now vested in it so far as exercisable in Wales**(b)**.

**Citation, commencement and application**

**1.-**(1) These Regulations may be cited as the Allocation of Housing (Wales) Regulations 2000 and shall come into force on 1st April 2000.

(2) These Regulations apply to Wales only.

**Eligibility for allocation of Housing Accommodation**

**2.** Regulations 3, 4, 5, 6, 7 and 8 of the Allocation of Housing (England) Regulations 2000**(c)** shall have effect in Wales and expressions used in those Regulations shall have the meaning given to them by Regulation 2 of those Regulations.

**Revocation**

**3.** The following Regulations are revoked in relation to Wales -

(a) The Allocation of Housing Regulations 1996**(d)**;

(b) Regulations 2 and 3 of the Allocation of Housing and Homelessness (Amendment) Regulations 1997**(e)**;

(a) 1996 c.52.

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 2000/702.

(d) S.I. 1996/2753; amended by S.I. 1997/631 and 1997/2046.

(e) S.I. 1997/631.

(c) Rheoliad 2 o Reoliadau Dyrannu a Digartrefedd (Diwygio) (Rhif 2) 1997 **(a)**.

(c) Regulation 2 of the Allocation of Housing and Homelessness (Amendment) (No.2) Regulations 1997 **(a)**.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(b)**.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998**(b)**.

30 Mawrth 2000

30th March 2000

*D. Elis Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) O.S. 1997/2046.

(b) 1998 p.38.

(a) S.I. 1997/2046.

(b) 1998 c.38.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1080(Cy. 73)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) 2000

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1080 (W. 73)

# HOUSING, WALES

## The Allocation of Housing (Wales) Regulations 2000

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg El Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090062-6

**£2.00**

WO6107 06/00 ON

9 780110 900629